

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig **Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022**. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Hannah Blythyn AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

22 Mawrth 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("y Ddeddf") yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Mae adran 88, (Cyfyngu cynlluniau presennol) o'r Ddeddf yn diwygio adrannau 18 a 31 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac yn cau'r cynlluniau gwaddol i groniadau pellach o 1 Ebrill 2022.

Mae'r Ddeddf, sy'n dilyn y dyfarniad yn achos Sargeant and others v London Fire Commissioner and others, yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran o'r prif gynlluniau pensiwn cyhoeddus a oedd wedi digwydd wrth gyflwyno cynlluniau pensiwn 2015 ledled y DU.

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 ("y Rheoliadau") yn darparu trefniadau i drosglwyddo pob aelod gweithredol o'r cynlluniau gwaddol, y cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 ("Cynllun 1992") a'r cynllun a sefydlwyd gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Cynllun 2007") i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun 2015"), sy'n cael ei lywodraethu gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 o 1 Ebrill 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd fod Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 wedi dod i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae angen y ddeddfwriaeth hon i gyd-fynd â gofynion y Ddeddf, ac mae'n ceisio mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran a ddigwyddodd wrth gyflwyno cynlluniau 2015 pan gynigiwyd diogelwch trosiannol i aelodau hŷn a oedd yn caniatáu iddynt aros yn eu cynlluniau gwaddol am fwy o amser nag aelodau eraill, iau. Roedd yn ofynnol i'r rheoliadau ddod i rym cyn 1 Ebrill 2022 - fel arall, ni fyddai diffoddwyr tân yr effeithir arnynt yn gallu cronni pensiwn yn y cynlluniau gwaddol mwyach, ond byddent yn cael eu hatal rhag ymuno â'r cynllun newydd o'r dyddiad hwnnw. Roeddent, er hynny, yn dibynnu ar y Ddeddf yn cael Cydsyniad Brenhinol, ac ni ddigwyddodd hyn tan 10 Mawrth.

Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i gydsyniad y Trysorlys. Crëwyd y gofyniad hwn gan adran 94 o'r Ddeddf, ac roedd yn destun datganiad o dan Reol Sefydlog 30 a wnaed gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar 12 Awst 2021. Gan fod pensiynau galwedigaethol yn fater a gedwir yn ôl, nid oedd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Mater i'r Trysorlys yw'r broses ar gyfer rhoi cydsyniad. Yn yr achos hwn, fe'i llofnodwyd gan ddau o Arglwyddi Comisiynwyr y Trysorlys yn llofnodi'r offeryn.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth, yn ganlyniadol i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022, i drosglwyddo holl aelodau Cynllun 1992 a Chynllun 2007 i Gynllun 2015, o 1 Ebrill 2022.

Rhoddir pwerau Gweinidogion Cymru i wneud y Rheoliadau gan adrannau 1(1) a (2)(f), 2(1), a 3(1), (2)(c) a (3)(a) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013"), fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf.

Yn unol ag adran 21 o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu gynrychiolwyr y personau hynny) y bydd y Rheoliadau hyn yn debygol o effeithio arnynt ym marn Gweinidogion Cymru.

Yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013, gwneir y Rheoliadau gyda chydsyniad y Trysorlys.

Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015, sy'n nodi Cynllun 2015. Diben y Rheoliadau yw diwygio'r darpariaethau trosiannol yng Nghynllun 2015 i drosglwyddo "aelodau a ddiogelir" i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022 ac i ddarparu "sylfaen" afiechyd i aelodau sy'n trosglwyddo o Gynllun 1992.

Maent fel a ganlyn:

- a) Mae rheoliadau 2 i 5 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag aelodau o Gynllun 1992 sy'n trosglwyddo i Gynllun 2015 ar 1 Ebrill 2022, lle'r oedd awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi penderfynu, cyn trosglwyddo, gael barn ysgrifenedig ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol mewn perthynas â dyfarniad posibl ar gyfer afiechyd. Os penderfynir wedi hynny fod dyfarniad afiechyd yn daladwy wedyn gwneir darpariaeth i'r dyfarniad fod yn gyfartal o leiaf i'r dyfarniad y byddai'r aelod wedi'i gael pe bai'r penderfyniad am eu dyfarniad afiechyd wedi'i wneud o dan Gynllun 1992 ar 31 Mawrth 2022.
- b) Mae Rheoliad 6(2)(a) yn darparu mai'r diffiniad o "ddyddiad cau" yn Atodlen 2 (sef y diwrnod aelodaeth olaf o Gynllun 1992 neu 2007) yw 31 Mawrth 2022 ar gyfer aelodau a ddiogelir yn llawn.

- c) Mae Rheoliad 6(2)(b) yn diwygio'r diffiniad o “ddyddiad trosiant” yn Atodlen 2 i bennu mai'r diwrnod cyntaf o aelodaeth o Gynllun 2015 yw 1 Ebrill 2022 ar gyfer aelodau a ddiogelir yn llawn.
- d) Mae Rheoliad 6(3) yn dileu'r pŵer i reolwyr cynlluniau bennu dyddiad terfynu ar gyfer diogelwch taprog (y mae aelodau'n ymuno â chynllun 2015 yn raddol o dano) ar ôl 31 Mawrth 2022, ac yn pennu y dylai pob cyfnod o ddiogelwch taprog ddod i ben ar y dyddiad hwnnw neu cyn y dyddiad hwnnw.
- e) Mae Rheoliad 6(4) yn ganlyniadol i reoliad 2(2)(a) ac yn darparu y bydd aelodau a ddiogelir yn llawn o Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 yn peidio â bod yn aelodau o'r cynlluniau hynny ar 31 Mawrth 2022.
- f) Mae rheoliad 6(5) yn diwygio paragraff 31(2) o Atodlen 2 fel nad oes modd i unrhyw ddewisiadau newydd i brynu gwasanaeth ychwanegol o dan Gynllun 2007 gael eu gwneud ar ôl 31 Mawrth 2022.
- g) Mae rheoliad 6(6) yn hepgor paragraffau 37 a 38 o Atodlen 2 er mwyn i aelodau sy'n aros am benderfyniad ynghylch a oes ganddynt hawl i gael dyfarniad afiechyd o dan Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 ar 1 Ebrill 2022 gael eu symud draw i gynllun 2015 ar y dyddiad hwnnw.

5. Ymgynghori

Mae adran 21(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n gyfrifol am wneud y rheoliadau (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) ymgynghori â'r rhai y mae'n debygol y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt, a/neu eu cynrychiolwyr, cyn gwneud unrhyw reoliadau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos rhwng 25 Hydref 2021 a 20 Rhagfyr 2021 ar y rheoliadau drafft. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys rheolwyr a gweinyddwyr cynlluniau, Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a sefydliadau cynrychioliadol ac undebau llafur sy'n cynrychioli staff y Gwasanaethau Tân ac Achub. Daeth wyth o ymatebion i law.

Roedd cytundeb cyffredinol bod y rheoliadau drafft yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Bil: cau cynlluniau a chaniatáu i aelodau gael eu trosglwyddo i gynllun 2015.

Er hynny, roedd sylwadau mewn dau faes penodol:-

- **Effaith oedran pensiwn arferol uwch yng Nghynllun 2015** - Mynegodd ymatebion gan gynrychiolwyr cyflogeion bryder am allu diffoddwyr tân, yn enwedig diffoddwyr tân benywaidd, i weithio i oedran pensiwn arferol o 60 o gofio'r safonau ffitrwydd uchel yng Nghynllun 2015.

Er hynny, mae cau cynlluniau gwaddol ac oedran pensiwn arferol Cynllun 2015 o 60, wedi'u mandadu mewn deddfwriaeth sylfaenol nad yw wedi'i

datganoli. Nid yw'n bosibl i'r rheoliadau hyn, nac unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, fynd i'r afael â phryderon o'r fath.

- **Cymhwysedd ar gyfer aelodau sy'n ymddeol ar sail afiechyd** – Nid oedd y ddogfen ymgynghori yn nodi meini prawf penodol ar gyfer cymhwysedd ar gyfer y sylfaen, ond cyfeiriodd at feini prawf a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer ymdrin â throsglwyddo aelodau'r cynllun gwaddol i gynllun 2015. Aelodau sy'n gymwys o dan y trefniant hwnnw yw'r rhai lle mae Awdurdod Tân ac Achub yn penderfynu, cyn y dyddiad trosglwyddo, y bydd eu hachos yn cael ei atgyfeirio at Ymarferydd Meddygol Cymhwysedig Annibynnol. Gwnaeth cynrychiolwyr cyflogeion yr achos dros ddull ehangach o brosesu achosion ymddeol ar sail afiechyd. O dan y dull hwn fe dybid y byddai'r broses ymddeol ar sail afiechyd wedi dechrau pan ddioddefodd yr aelod o dan sylw yr anaf neu'r cyflwr a arweiniodd at eu hymddeoliad.

Ni chodwyd unrhyw faterion gyda mecanwaith y sylfaen ei hun yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law. Er hynny, mae drafftio manwl ar y darpariaethau i sefydlu'r sylfaen wedi datgelu y bydd buddion afiechyd i'r rhai yn y grŵp trosglwyddo bob amser mor hael o dan Gynllun 2015 ag y byddent wedi bod yng Nghynllun 2007. O ganlyniad, nid yw'r Rheoliadau ond yn gwneud darpariaeth ar gyfer sylfaen afiechyd ar gyfer aelodau Cynllun 1992.

Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

<https://llyw.cymru/newidiadau-i-gynlluniau-pensiwn-diffoddwyr-tan-yng-nghymru-2021>

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond nid yw wedi'i gynnal yn yr achos hwn. Y rheswm dros hynny yw na fydd y Rheoliadau'n cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i elusennau, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol. Bydd y goblygiadau ariannol i Awdurdodau Tân ac Achub, ar y cyfan, yn gadarnhaol i ryw raddau, gan fod cyfraniadau cyflogwyr o dan Gynllun 2015 yn is nag o dan Gynllun 1992 y bydd y rhan fwyaf o aelodau'n trosglwyddo ohono. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.